Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Llawlyfr enwebeion ar gyfer ysgolion ac UCDau

## ar gyfer arolygiadau o fis Medi 2021

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru


**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Rhan 1: Rolau a chyfrifoldebau** | **2** |
| **Rhan 2: Yn ystod yr arolygiad** | **5** |
| Adran A:  Rôl a chyfrifoldebau | 5 |
| Adran B:  Gweithgareddau arolygu | 5 |
| Adran C: Cwestiynau cyffredin | 9 |
| **Rhan 3: Ar ôl yr arolygiad** | **12** |
| **Atodiad 1: Taith trwy wythnos yr arolygiad** | **13** |
| Ysgolion cynradd | 13 |
| Ysgolion uwchradd | 14 |
| Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion | 16 |
| Ysgolion annibynnol | 17 |

## Cyflwyniad

Mae’r llawlyfr hwn ar gyfer enwebeion a fydd yn gweithredu fel cynrychiolydd yr ysgol ar y tîm arolygu yn ystod yr arolygiad o’u hysgol[1]. Ei nod yw rhoi arweiniad i benaethiaid ac uwch reolwyr a fydd yn eu galluogi i ddeall ac ymgymryd â rôl yr enwebai yn effeithiol.

Mae’r llawlyfr mewn tair rhan.

- Rhan 1: Cyn yr arolygiad
- Rhan 2: Yn ystod yr arolygiad
- Rhan 3: Ar ôl yr arolygiad

Bydd yn ddefnyddiol i chi gael copi o ddogfennau ‘Beth rydym yn ei arolygu’ a ‘Sut rydym yn arolygu’ 2021 Estyn i gyfeirio atynt wrth i chi fynd trwy’r llawlyfr enwebeion. Mae’r dogfennau hyn ar gael ar ein gwefan. Mae’n bwysig iawn i chi fod yn gyfarwydd â nhw cyn yr arolygiad.

Er mwyn gweithredu fel enwebai ar arolygiad, rhaid eich bod wedi darllen y llawlyfr enwebeion, ac wedi cwblhau’r datganiad yn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC) yn yr ystafell arolygu rithwir (YAR).

Bydd y cydlynydd arolygu (CydAr) yn gwirio i weld bod y datganiad wedi cael ei gwblhau cyn dechrau’r arolygiad.

[1] Trwy gydol y llawlyfr, defnyddir y term ‘ysgol’ i gynnwys meithrinfeydd, ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac uwchradd a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).

## Rhan 1: Rôl a chyfrifoldebau

Bydd yr adran hon yn esbonio eich rôl a’ch cyfrifoldebau fel enwebai’r ysgol.

Dylai’r adran hon eich galluogi chi i:

- gael dealltwriaeth dda o’r rôl
- deall y protocol sy’n arwain eich gwaith fel enwebai
- gwybod cyfrifoldebau’r enwebai cyn yr arolygiad

### Cefndir

Trwy wahodd ysgolion i ddewis enwebai ar gyfer yr arolygiad i gydweithio’n agos â’r tîm arolygu, ein nod yw cynnwys ysgolion yn weithredol yn y broses arolygu. Mae presenoldeb enwebai yn helpu i gryfhau’r bartneriaeth rhwng y tîm arolygu a’r ysgol. Bydd hefyd yn rhoi cipolwg gwell i ysgolion ar y broses arolygu ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw’n ofyniad i’r ysgol gynnig enwebai.

Rydym yn gwahodd ysgolion i ddewis enwebai a fydd:

- yn sicrhau bod arolygwyr yn cael eu hysbysu’n llawn am gyd-destun gwaith yr ysgol
- yn cyfrannu at gyfarfodydd y tîm arolygu
- yn clywed canfyddiadau sy’n dod i’r amlwg gan y tîm

### Yr enwebai

Fel enwebai, dylech fod yn aelod o staff sy’n ddigon uchel i weithredu fel unigolyn cyswllt rhwng yr ysgol a’r tîm arolygu. Mae arolygwyr yn gwerthfawrogi rôl a chyfraniad yr enwebai’n fawr, gan fod yr enwebai’n cyfrannu’n sylweddol at sicrhau bod yr arolygiad yn cael ei gynnal yn ddidrafferth. Gan amlaf, y Pennaeth yw’r enwebai, ond o bryd i’w gilydd, mae’n well gan ysgolion enwebu dirprwy Bennaeth neu uwch arweinydd arall.

Os yw’r ysgol yn penderfynu peidio â derbyn y cynnig i gael enwebai:

- ni ddylai hyn fod yn niweidiol i’r arolygiad; ni fydd y ffaith nad oes gan ysgol enwebai yn cael unrhyw effaith ar y gwerthusiadau sy’n cael eu gwneud gan y tîm arolygu
- bydd angen o hyd i’r arolygydd cofnodol (ACof) sefydlu hinsawdd lle mae’r ysgol yn gwerthfawrogi’r arolygiad ac i gynnal perthynas waith dda gyda’r uwch staff.

### Enwebai effeithiol

Mae rôl yr enwebai yn feichus. Mae’n gofyn i chi arfer y gwrthrychedd sy’n hanfodol i broses arolygu allanol. Nid bod yn eiriolwr neu’n amddiffynnwr yr ysgol yw eich rôl, ond hwyluso’r broses arolygu, er enghraifft trwy sicrhau y gall y tîm weld yr holl dystiolaeth a’r wybodaeth sydd eu hangen arno i lunio gwerthusiad dilys a dibynadwy

ar waith yr ysgol. **Bydd gofyn i chi hefyd barchu cyfrinachedd llym holl drafodaethau'r arolygiad.**

Cyn yr arolygiad, dylech chi:

- ymgyfarwyddo â'r ddwy ddogfen 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu'
- ymgyfarwyddo ag arweiniad Estyn ar rôl yr enwebai
- gwneud trefniadau gweinyddol priodol ar gyfer yr arolygiad
- sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr arolygiad ar gael i'r tîm arolygu

A chithau'n uwch arweinydd yn yr ysgol, dylech chwarae rhan sylweddol ym mhrosesau hunanwerthuso a gwella'r ysgol a meddu ar wybodaeth ymarferol dda am gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau gwella. Ni fydd y tîm arolygu yn disgwyl i chi wybod yr ateb i bob cwestiwn unigol am yr ysgol ar unwaith, ond byddant yn disgwyl i chi wybod at bwy neu i ble i droi i gael y dystiolaeth berthnasol.

## Casglu tystiolaeth

Bydd bron eich holl gyswllt cyn yr arolygiad gyda'r CydAr. Bydd y CydAr yn ffonio'r ysgol tua phythefnos cyn yr arolygiad i roi gwybod dyddiad yr arolygiad i chi. Yn ystod yr alwad ffôn hon, bydd y CydAr yn rhoi manylion i chi am y tîm arolygu ac yn trafod y trefniadau manwl ar gyfer yr arolygiad. Bydd y CydAr yn anfon ffurflen atoch â gwybodaeth a gymerwyd o'ch adroddiad data CYBLD diweddaraf. Mae'n bwysig eich bod yn gwirio cywirdeb y wybodaeth hon cyn gynted ag y bo modd ac yn rhoi gwybod i'r CydAr am unrhyw newidiadau.

Pan fyddwch wedi cael gwybod y bydd arolygiad yn cael ei gynnal, gofynnir i chi ddarparu'r pum darn canlynol o wybodaeth ar gyfer yr arolygydd cofnodol:

- copi o gynllun gwella neu gynllun datblygu diweddaraf eich ysgol
- amserlen lawn ar gyfer yr holl ddosbarthiadau yn ystod wythnos yr arolygiad, gan gynnwys amserlenni gwersi ar gyfer pob dosbarth
- cynllun wedi'i labelu o ystafelloedd neu ardaloedd addysgu'r ysgol
- rhestr o aelodau staff, yn cynnwys eu rolau a'u cyfrifoldebau
- copi o wybodaeth gan y Swyddfa Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff ac unrhyw lywodraethwyr neu wirfoddolwyr sydd wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn unol â pholisi'r ysgol

Dylid llwytho'r wybodaeth hon i'r YAR heb fod yn hwyrach na 5 niwrnod gwaith ar ôl cael gwybod am yr arolygiad. Bydd y CydAr yn esbonio wrthych sut mae system yr YAR yn gweithio.

Bydd Estyn hefyd yn gofyn i chi lanlwytho hunanwerthusiad o drefniadau diogelu'r ysgol. Nid oes fformat penodol ar gyfer yr hunanwerthusiad hwn. Gallwch chi lanlwytho eich hunanwerthusiad diogelu diweddaraf, er enghraifft ffurflen eich awdurdod lleol neu'r model cenedlaethol, os ydynt ar gael. Os oes angen, bydd y CydAr yn rhoi copi o dempled hunanwerthusiad i chi ei ddefnyddio, drwy'r ystafell arolygu rithwir (YAR).

Bydd y CydAr yn ffonio'r pennaeth yn fuan ar ôl i'r ysgol gael gwybod am ei harolygiad. Bydd yr ACof yn cael trafodaeth gyda'r pennaeth am unrhyw dystiolaeth arall y mae'r ACof yn gofyn iddi fod ar gael i'r tîm pan fyddant yn cyrraedd.

**Crynodeb**

Yn yr adran hon, byddwch wedi darllen am rolau a chyfrifoldebau'r enwebai a'r gwaith y mae'n ofynnol i'r enwebai ei gyflawni cyn yr arolygiad.

Bydd yn ddefnyddiol petaech yn rhannu'ch dealltwriaeth o'r rôl gyda staff a llywodraethwyr.

# Rhan 2: Yn ystod yr arolygiad

## Adran A: Rolau a chyfrifoldebau

**Yn ystod** yr arolygiad, dylech wneud y canlynol:

- cysylltu â'r ACof ynglŷn â threfniadau gweinyddol
- ymateb i geisiadau'r tîm am wybodaeth ychwanegol
- cynorthwyo i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi
- cyfrannu at drafodaethau mewn cyfarfodydd tîm am gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella

Nid bod yn eiriolwr yr ysgol yw eich rôl, ond, lle y bo'n briodol, gallwch:

- awgrymu tystiolaeth bellach i arolygwyr ei hystyried, a allai fod yn berthnasol i'r arolygiad

Fel enwebai, dylech gynnig cyfrwng cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r tîm arolygu. Os bydd gan staff unrhyw bryderon, er enghraifft am y ffordd mae'r arolygiad yn cael ei gynnal, dylent eu codi gyda chi a dylech drosglwyddo'r pryderon hyn i'r arolygydd cofnodol. Os ydych yn teimlo na allwch drafod y mater gyda'r arolygydd cofnodol am unrhyw reswm, dylech gysylltu ag Estyn a gofyn am gael siarad â'r cyfarwyddwr cynorthwyol perthnasol ar gyfer eich sector.

## Adran B: Gweithgareddau arolygu

Bydd yr adran hon yn eich galluogi i gael dealltwriaeth well o'r canlynol:

- yr hyn y bydd y tîm yn ei wneud yn ystod yr arolygiad
- eich rôl mewn cyfarfodydd tîm

Bydd maint y tîm a hyd yr arolygiad yn dibynnu ar y sector a maint yr ysgol. Mae **Atodiad 1** yn darparu model posibl o'r modd y gall arolygwyr ddefnyddio eu hamser yn ystod yr arolygiad mewn gwahanol sectorau. Darllenwch drwy'r wybodaeth sy'n berthnasol i'ch math o ysgol. Bydd yn ddefnyddiol rhannu'r wybodaeth hon gyda staff a llywodraethwyr cyn yr arolygiad.

Bydd bore dydd Llun fel arfer yn cael ei ddefnyddio ar gyfer teithio. Fel arfer, bydd y tîm arolygu'n cyrraedd yr ysgol tua 12 o'r gloch (bydd yr arolygydd cofnodol yn trefnu'r union amser gyda'r pennaeth yn ystod yr alwad ffôn gychwynnol). Y gweithgaredd cyntaf fydd y cyfarfod tîm cyn-arolygiad. Gallai agenda nodweddiadol ar gyfer y cyfarfod hwn gynnwys:

- Croeso a chyflwyniadau
- Trefniadau ymarferol, materion iechyd a diogelwch a threfniadau diogelu
- Lle bo'n briodol, materion/gweithgareddau penodol yn ystod yr wythnos a fydd yn effeithio ar y rhaglen arolygu
- Cyfrifoldebau tîm – dyrannu Meysydd Arolygu ac ysgrifennu adrannau o'r adroddiad

- Nodweddion allweddol yr ymatebion i'r holiaduron i ddisgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr
- Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd â disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr
- Cofnodi tystiolaeth, gan gynnwys defnyddio'r ffurflenni barnau a threfniadau ar gyfer coladu canfyddiadau'r tîm
- Trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ar ddiwrnod olaf yr arolygiad

Bydd y cyfarfod hwn yn rhoi cyfle cynnar i'r pennaeth dynnu sylw'r tîm at unrhyw faterion yn gysylltiedig â chyd-destun hefyd, er enghraifft effaith y pandemig ar gymuned yr ysgol.

Mae **cyfarfodydd tîm dyddiol** yn rhan bwysig iawn o'r broses arolygu. Fel enwebai, dylech fynychu pob cyfarfod tîm gan gynnwys y cyfarfod tîm cyn-arolygiad.

Ar y dydd Llun, bydd y cyfarfod tîm ar ffurf deialog broffesiynol gyda'r pennaeth (a gydag uwch arweinwyr eraill mewn rhai achosion). Bydd y drafodaeth hon yn cael ei harwain gan yr arolygydd cofnodol, a fydd wedi darllen cynllun datblygu neu gynllun gwella'r ysgol fel rhan o'i waith cyn-arolygiad.

Mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed, gallai'r tîm gynnal mwy nag un o'r cyfarfodydd deialog broffesiynol hyn; er enghraifft, gallai'r arolygydd / arolygwyr sy'n gyfrifol am faes arolygu 4 gynnal trafodaeth gyda'r uwch arweinydd / arweinwyr sy'n gyfrifol am ofal, cymorth ac arweiniad. Bydd yr arolygydd cofnodol yn esbonio'r trefniadau ar gyfer y trafodaethau hyn gyda'r pennaeth yn eu galwad ffôn gychwynnol.

Mewn sectorau eraill, dim ond un cyfarfod deialog broffesiynol a gynhelir fel arfer, sy'n cynnwys y tîm arolygu a'r pennaeth yn unig.

Ym mhob un o'r cyfarfodydd deialog broffesiynol, bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar:

- brosesau'r ysgol ar gyfer dewis ei blaenoriaethau gwella
- sut mae'r ysgol yn monitro a gwerthuso'i chynnydd tuag at ei thargedau gwella
- yr effaith y mae gwaith gwella'r ysgol yn ei chael ar ddeilliannau disgyblion

Bydd y cyfarfodydd tîm ar ôl ysgol ar weddill diwrnodau'r arolygiad yn canolbwyntio ar ystyried y cryfderau a'r meysydd i'w gwella sy'n dod i'r amlwg o dan bob un o'r meysydd arolygu.

Mae'n bwysig eich bod chi, fel enwebai, yn talu sylw priodol i brotocol yr enwebai. Dyma'r achos yn benodol mewn cyfarfodydd tîm lle y bydd trafodaethau yn cwmpasu cryfderau a gwendidau'r ysgol.

Mae enwebai da wedi'i baratoi'n dda, wedi'i friffio'n dda ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at drafodaethau tîm. Gellid gofyn am eich cyngor ynghylch o ble gall y tîm gael tystiolaeth benodol neu pwy yw'r person gorau y gall arolygwyr drafod agwedd benodol ar waith yr ysgol gydag ef/hi.

Peidiwch â bod ofn gofyn am eglurhad os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall. Chi yw'r unigolyn sy'n fwyaf tebygol o gael ei ofyn i esbonio canfyddiadau'r arolygiad

i'r staff eraill a helpu'r ysgol i symud ymlaen ar ôl yr arolygiad, felly mae'n bwysig eich bod yn gwybod pam mae arolygwyr wedi llunio eu gwerthusiadau.

Darllenwch yr enghreifftiau canlynol o dri enwebai gwahanol iawn, a'u rôl mewn cyfarfodydd tîm.

**Enghraifft A**

Cyd-destun: y cyfarfod tîm cychwynnol cyntaf yn y prynhawn.

Yn ystod y cyfarfod tîm, llwyddais i wneud nodiadau am bethau roeddwn i'n dymuno i'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt, a gwybodaeth ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol iddyn nhw, yn fy marn i. Roedd hyn yn fuddiol iawn. Roeddwn i'n teimlo'n hyderus i gyfrannu at y trafodaethau, ac yn gallu defnyddio fy ngwybodaeth am yr ysgol i roi cyd-destun defnyddiol i'r tîm. Er na heriais i unrhyw beth a ddywedodd y tîm, dywedais wrth y tîm ble y gellid dod o hyd i fwy o wybodaeth. Er enghraifft, soniodd yr ACof nad oedd yn ymddangos bod yr ysgol yn ymwneud rhyw lawer ag ysgolion eraill o ran rhannu arfer dda. Llwyddais i gyfeirio'r arolygwyr at fenter clwstwr yr oedd yr ysgol wedi'i harwain.

Mae'r enwebai yn enghraifft A wedi paratoi'n dda ac yn gwybod ble y gellir dod o hyd i dystiolaeth. Mae'n ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses arolygu.

**Enghraifft B**

Cyd-destun: y cyfarfod tîm ar ddiwedd diwrnod cyntaf llawn yr arolygiad.

Roedd un o'r arolygwyr tîm a'r arolygydd lleyg wedi cyfarfod â grwpiau o blant yn ystod y dydd ac wedi adrodd yn ôl wrth y tîm am hyn. Dywedodd yr arolygydd lleyg fod y disgyblion yr oedd wedi siarad â nhw yn teimlo bod ymddygiad yn broblem yn yr ysgol. Dywedodd yr ACof y dylai'r tîm chwilio am dystiolaeth bellach am ymddygiad i nodi a oedd hwn yn faes i'w wella. Ni ddywedais unrhyw beth, ond roeddwn i'n teimlo'n flin y gallai un grŵp bach o ddisgyblion gael effaith mor negyddol. Dylwn i fod wedi gofyn a oedd unrhyw un wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ymddygiad gwael mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, ond doedd neb wedi ei weld. Byddai'n dda pe bawn i wedi dweud mwy wrth y tîm am y gwaith llwyddiannus rydym ni'n ei wneud yn annog ymddygiad cadarnhaol.

Mae'r enwebai yn enghraifft B yn rhy oddefgar o lawer. Mae'r enwebai wedi ei lethu gan y profiad cyfan, ac yn rhy ofnus i ofyn am eglurhad. Mae gan yr enwebai hwn dystiolaeth a gwybodaeth ychwanegol, ond mae'n anghyfforddus yn tynnu sylw'r tîm at hyn, ac yn meddwl y gallai hyn ymddangos yn 'rhy ymwthgar'. Gallai adlewyrchu'n wael ar yr enwebai neu'r ysgol hefyd. Nid yw tawedogrwydd yr enwebai yn fuddiol i'r tîm arolygu.

**Enghraifft C**

Cyd-destun: yr ail gyfarfod tîm ar ôl yr ysgol. Mae'r tîm yn trafod Maes Arolygu 3 ac yn canolbwyntio ar addysgu. Dywed yr arolygydd cymheiriaid fod mwyafrif yr addysgu mae hi wedi'i arsylwi hyd yma wedi bod yn aneffeithiol. Mae'r ACof yn gofyn iddi ymhelaethu, ac yn mynd ymlaen i ddweud bod yr holi wedi'i gyfyngu i gwestiynau

caeedig, ac nad oedd y gwaith yn ddigon heriol. O ganlyniad, diflasodd y disgyblion, a dechrau arddangos ymddygiad aflonyddgar.

Gofynnais i'r ACof a oedd wedi gwirio gwaith yr arolygydd cymheiriaid, gan ei bod yn hollol anghywir, yn fy marn i. Rwy'n gwybod bod yr arolygydd cymheiriaid wedi bod yn adran y Dyniaethau'r wythnos hon – fi yw eu rheolwr llinell, ac rwy'n gwybod bod pob un o'r staff yn athrawon rhagorol. Gofynnais i'r arolygydd cymheiriaid beth oedd ei phrofiad hi o arsylwi addysgu. Rwyf am alw draw yn adran y Dyniaethau bore fory i ddangos fy nghefnogaeth iddyn nhw, a dweud wrthyn nhw mai nonsens yw beirniadaethau'r arolygydd cymheiriaid.

Mae'r ymagwedd amddiffynnol a dadleugar hon yn amhriodol a di-fudd. Mae'r protocol yn ei gwneud yn glir nad rôl eiriolwr nac amddiffynnwr yr ysgol mohoni. Os rhannwch chi fanylion am drafodaethau'r tîm gyda staff, byddwch yn torri rheolau cyfrinachedd y tîm.

Byddai wedi bod yn fwy buddiol i'r enwebai ddweud yn y cyfarfod tîm ei fod wedi'i synnu gan ganfyddiadau arolygwyr, ond yn derbyn mai dyma a welwyd. Gallai roi cofnodion yr ysgol ei hun i arolygwyr o ran monitro a chraffu ar waith disgyblion dros gyfnod, er enghraifft yn y Dyniaethau. Bydd gwrando ar drafodaeth y tîm yn rhoi dealltwriaeth fuddiol i'r enwebai a'r ysgol ynghylch pam mae'r ddarpariaeth ystafell ddosbarth yn llai effeithiol na'r hyn y mae arweinwyr yr ysgol yn credu ydyw.

### Casglu tystiolaeth

Bydd y tîm arolygu yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i gasglu tystiolaeth yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a chyfarfodydd â disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Yn ogystal â gwersi, gallai arolygwyr ymweld â gwasanaethau, cyfnodau cofrestru neu raglenni cymorth.

Hefyd, bydd arolygwyr yn bwrw golwg ar amrywiaeth o ddogfennau, er enghraifft cofnodion cyfarfodydd y corff llywodraethol. Byddant yn defnyddio'r dogfennau hyn i ddod o hyd i wybodaeth am waith yr ysgol a nodi meysydd i'w trafod ymhellach. Ni fyddant, fodd bynnag, yn gwerthuso ansawdd y dogfennau eu hunain.

Nid yw'n ofynnol i ysgolion a gynhelir ac UCDau roi adroddiad hunanwerthuso i arolygwyr cyn nac yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, mae croeso i ysgolion ddarparu dogfennau i arolygwyr am eu gwaith gwerthuso a gwella a allai fod yn ddefnyddiol neu'n berthnasol, yn eu barn nhw.

Mae'n ofynnol i bob ysgol annibynnol ac ysgol arbennig annibynnol roi adroddiad hunanwerthuso i arolygwyr cyn yr arolygiad ac mae croeso iddynt hefyd ddarparu unrhyw ddogfennau eraill am eu gwaith gwerthuso a gwella a allai fod yn ddefnyddiol neu'n berthnasol iddynt.

Bydd arolygwyr yn achub ar bob cyfle i **siarad â disgyblion**. Byddant yn gofyn i ddisgyblion ddangos eu gwaith iddynt a'i drafod gyda nhw. Bydd yr arolygydd cofnodol yn trefnu cyfarfodydd yn yr amserlen gyda disgyblion, ond bydd arolygwyr hefyd yn siarad â disgyblion yn ystod gwersi ac o gwmpas yr ysgol, lle y bo'n briodol.

Wrth **werthuso gwaith disgyblion**, bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cynnydd a wna disgyblion dros gyfnod. Byddant yn ystyried pa mor dda mae'r cwricwlwm yn rhoi cyfleoedd buddiol ac ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Gallai arolygwyr ofyn i'r ysgol ddarparu enghreifftiau pellach o waith disgyblion, os bydd angen, er enghraifft gwaith a gwblhawyd ganddynt yn ddigidol.

Wrth **ymweld â gwersi**, gallai arolygwyr arsylwi rhan o sesiwn neu sesiwn lawn mewn gwers (rhwng 20-30 munud fel arfer) neu gall ymweld â rhan o sesiwn fel rhan o daith ddysgu. Lle y caiff gwers lawn ei harsylwi, bydd yr arolygydd yn cynnal deialog broffesiynol fer gyda'r athro sy'n cael ei arsylwi, naill ai ar ddiwedd y wers neu'n ddiweddarach yn ystod yr wythnos. Nid yw arolygwyr yn 'graddio' gwersi unigol.

Wrth werthuso effaith addysgu ac asesu, bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar **effaith** darpariaeth yr ysgol ar gynnydd disgyblion a'r safonau a gyflawnant. Nid yw Estyn yn 'ffafrio' unrhyw ddull o ran arferion addysgu ac asesu. Nid oes unrhyw ddulliau y mae arolygwyr yn 'disgwyl' eu gweld mewn gwersi, fel rhannu amcanion dysgu neu ddefnyddio sesiwn lawn. Nid yw arolygwyr yn disgwyl gweld holl ystod y medrau sy'n cael eu datblygu ym mhob gwers. Wrth ystyried adborth athrawon, bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar yr effaith a gaiff ar gynnydd disgyblion.

Bydd yr **Arolygydd Lleyg** fel arfer yn ymuno â'r tîm ar ddiwrnod cyntaf llawn yr arolygiad ar y safle. Bydd yr arolygydd lleyg yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth am brofiad yr ysgol i ddisgyblion a chyfraniad perthnasoedd a'r amgylchedd i'w diogelwch, agweddau tuag at ddysgu a'u lles. Bydd yr arolygydd lleyg yn casglu gwybodaeth trwy deithiau dysgu, cyfarfod â staff a disgyblion, yn ogystal ag arsylwi disgyblion yn ystod amseroedd egwyl a chinio i ategu barnau ar feysydd arolygu. Ni fydd yr arolygydd lleyg yn arsylwi gwersi'n ffurfiol nac yn cyfrannu at werthusiadau ar safonau ac addysgu.

Gallai fod yn ddefnyddiol sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o arweiniad Lleihau Baich Gwaith a gymeradwyir gan Estyn, consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol, Cyngor y Gweithlu Addysg, undebau sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg a Llywodraeth Cymru.

## Adran C: Cwestiynau cyffredin

### 1. A oes rhaid i ni newid ein hamserlenni os yw'r ACof yn gofyn?

Mae Estyn yn awyddus i ysgolion fwrw ymlaen yn ôl yr arfer yn ystod arolygiad. Y peth gorau i athrawon a disgyblion ei wneud yw ymgymryd â'u gweithgareddau arferol ar yr amseroedd arferol. Felly, fel arfer, ni ddylai'r ACof ofyn am unrhyw newidiadau i'r amserlen ysgol arferol.

### 2. A ddylwn i ofyn i'r athrawon CPA beidio â dod i'r ysgol yn ystod diwrnodau'r arolygiad?

Bydd angen i arolygwyr weld yr ysgol yn gweithredu yn ôl yr arfer, sy'n cynnwys y modd y mae'r ysgol yn ymdrin ag amser CPA athrawon. Fel arfer, ni fyddai'n briodol gwneud newidiadau i arfer arferol staff ar gyfer arolygiad yn unig.

**3. Os ydw i'n aelod o'r tîm, a gaf i fynd i'r cyfarfod rhieni?**

A chithau'n enwebai, ni chewch fynychu'r cyfarfod rhieni oni bai eich bod yn rhiant. Os ydych yn rhiant, fe gewch fynychu'r cyfarfod rhieni fel rhiant a dylech ond gyfrannu at y cyfarfod hwnnw yn y rôl honno.

**4. Gan fy mod yn bennaeth/dirprwy bennaeth ysgol fach iawn sydd ag ymrwymiad addysgu amser llawn, ac eisiau mynychu'r cyfarfod tîm ar ddechrau'r bore, a alla' i ofyn i'r ACof beidio ag arsylwi fy addysgu tan ar ôl yr amser chwarae cyntaf?**

Mae'n bwysig eich bod yn trafod y materion hyn gyda'r ACof. Mae arolygwyr cofnodol yn llawn cydymdeimlad mewn amgylchiadau o'r fath, ac fel arfer byddent yn ceisio bodloni'r cais hwn. Mae arolygwyr cofnodol yn cydnabod yr heriau penodol y mae arweinwyr a rheolwyr mewn ysgolion bach iawn yn eu hwynebu.

**5. Petawn i'n meddwl nad yw'r tîm wedi gweld rhywbeth pwysig, beth ddylwn i ei wneud?**

Mae'n bwysig iawn eich bod yn tynnu sylw'r tîm at unrhyw dystiolaeth sylweddol. Nid oes rhaid i hyn achosi gwrthdaro, ond dylech sicrhau bod yr ACof yn gwybod am yr arwyddocâd rydych yn ei roi i'r dystiolaeth benodol hon.

**6. Os bydd rhywbeth arbennig yn cael ei gynnal yn yr ysgol yn ystod yr arolygiad ar y safle, a ddylwn i roi gwybod i'r arolygydd arweiniol?**

Wrth gwrs, a gwnewch yn siwr eich bod yn rhoi gwybod i'r Cydlynydd Arolygu am hyn pan fydd yn cyhoeddi'r arolygiad. Hefyd, dylech wneud hyn yn amlwg yn yr amserlenni rydych yn eu hanfon at y CydAr neu'r contractwr cyn yr arolygiad. Er na all arolygwyr sicrhau y byddant yn gallu rhoi amser i hyn, bydd llawer ohonynt yn gwneud hynny.

**7. Os bydd y tîm yn dweud nad ydynt wedi gweld disgyblion yn defnyddio unrhyw TGCh mewn dosbarthiadau, alla' i ddweud hyn wrth y staff?**

Na. Mae trafodaethau tîm yn gyfrinachol. Fodd bynnag, efallai yr hoffech sicrhau bod y tîm wedi cael unrhyw dystiolaeth sylweddol yn ymwneud â medrau digidol disgyblion a'u defnydd o TGCh yn y dosbarth, os yw ar gael.

**8. Os bydda' i'n anghytuno â'r hyn y mae'r tîm yn ei ddweud yn eu cyfarfod, beth alla' i ei wneud?**

Gallwch dynnu sylw'r tîm at unrhyw wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol. Er y byddant yn ystyried y wybodaeth hon, efallai na fydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn newid gwerthusiad am y maes hwnnw. Bydd y tîm yn llunio ei farn ei hun.

**9. A ellir gofyn i mi adael cyfarfod tîm?**

Gall gwrando ar dîm arolygu yn trafod a llunio gwerthusiadau ar eich ysgol fod yn heriol, yn enwedig pan nad ydynt yn gytûn â'ch barnau chi, ac efallai y byddwch yn teimlo'n aml bod rhaid i chi ddweud eich dweud. Fodd bynnag, mae angen i chi gofio

nad amddiffyn yr ysgol yw rôl yr enwebai, ond cyfeirio’r tîm at dystiolaeth berthnasol a hwyluso’r arolygiad.

Anaml iawn y bydd yr ACof yn gofyn i enwebai adael cyfarfod tîm. Fodd bynnag, os byddwch chi’n ymddwyn mewn ffordd sy’n tarfu ar gynnal yr arolygiad yn esmwyth, er enghraifft herio canfyddiadau’r tîm yn barhaus, yna gall yr ACof ofyn i chi adael y cyfarfod. Cyn i hyn ddigwydd, bydd yr ACof yn eich atgoffa ynglŷn â’r protocol y cytunwyd arno ac yn esbonio eich bod yn camu’r tu allan i delerau’r cytundeb.

### 10. A oes angen i mi wneud yn siwr bod y tîm yn cael detholiad o lyfrau disgyblion o bob dosbarth/pwnc ar gyfer disgyblion abl, cymedrol a llai abl?

Mae’n debygol y bydd y tîm arolygu yn gofyn am sampl o lyfrau disgyblion i fod yn sampl gyfeirio yn ystod yr arolygiad. Bydd yr ACof yn trafod union natur y sampl pan fydd yn cysylltu â chi cyn yr arolygiad.

### 11. A fydd yr arolygwyr yn cyfarfod â phob un o’m cydlynwyr / arweinwyr canol?

Mae’n annhebygol y bydd arolygwyr yn cyfarfod â phob un ohonynt, yn enwedig mewn ysgolion mwy o faint. Maent yn fwy tebygol o lawer o ddethol sampl ohonynt i gyfarfod â nhw, yn unol â’r angen.

### 12. Fel enwebai, a alla’ i weld y Ffurflenni Barnau sy’n cael eu llenwi gan aelodau’r tîm arolygu?

Na allwch, mae’r rhain yn gyfrinachol i’r tîm arolygu.

### Crynodeb

Yn yr adran hon, byddwch yn darllen am y mathau o weithgareddau y mae arolygwyr yn ymgymryd â nhw a sut maent yn mynd ati i gasglu tystiolaeth.

Efallai y byddwch am ystyried sut gallwch rannu’r wybodaeth hon gyda staff er mwyn iddynt ennill dealltwriaeth o’r broses arolygu.

## Rhan 3: Ar ôl yr arolygiad

**Ar ôl** yr arolygiad, dylech wneud y canlynol:

- mynychu'r cyfarfod adborth ar ddiwedd yr arolygiad
- cyfrannu at wirio cywirdeb ffeithiol drafft yr adroddiad
- cyfrannu at lenwi'r holiadur ôl-arolygiad (HOA), y bydd y CydAr yn ei anfon atoch ar ôl yr arolygiad
- cymryd rhan lawn mewn dyfeisio'r cynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad

Rydych bellach wedi darllen trwy'r llawlyfr a gallwch ddechrau paratoi ar gyfer eich arolygiad. Gall fod yn ddefnyddiol i chi nawr edrych ar wefan Estyn i weld a oes unrhyw arweiniad pellach a all fod yn ddefnyddiol i chi. Ar y wefan, ceir ystod o ddogfennau a all fod yn ddefnyddiol, gan gynnwys arweiniad atodol ar ystod o faterion arolygu ac arweiniad ar drefniadau gweithgarwch dilynol.

## Atodiad 1: ‘Taith’ trwy wythnos yr arolygiad

### Ysgolion cynradd

Cynhelir pob arolygiad o ddydd Llun naill ai tan ddydd Iau (o ddydd Mawrth tan ddydd Gwener, o bryd i’w gilydd). Bydd maint y tîm yn amrywio yn ôl maint yr ysgol.

**Dydd Llun**

Bydd y tîm arolygu yn teithio i’r ysgol ar y bore dydd Llun, gan gyrraedd tua chanol dydd. Ar ôl y cyfarfod cyn-arolygiad, gallai arolygwyr ddechrau gweithgarwch arolygu, er enghraifft teithiau dysgu.

Ar ôl ysgol, bydd yr arolygydd cofnodol ac arolygydd tîm yn cyfarfod â rhieni/gofalwyr. Mae’n debygol y bydd yr arolygydd cofnodol hefyd yn trefnu i gyfarfod â chynrychiolwyr corff llywodraethol yr ysgol yn ystod y prynhawn Llun.

**Gweithgarwch arolygu ddydd Mawrth a dydd Mercher**

Bydd nifer y diwrnodau a dreulir yn arolygu ysgol yn dibynnu ar nifer y disgyblion, a yw’r ysgol ar safle sy’n cael ei rannu ac a oes ganddi ddarpariaeth arbenigol fel dosbarthiadau anghenion addysgol arbennig. Ar gyfer ysgolion cynradd, bydd arolygiad yn para tridiau fel arfer.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y tîm yn arsylwi ystafelloedd ddosbarth, yn cynnal teithiau dysgu, yn cyfweld â disgyblion, yn adolygu gwaith disgyblion a thystiolaeth arall ac yn cyfarfod â staff perthnasol. Bydd cyfarfod tîm yn cael ei gynnal ar ddiwedd pob dydd (gweler rhan 2, adran B uchod).

Fel arfer, bydd yr arolygydd lleyg yn ymuno â’r tîm ar ddiwrnod cyntaf llawn yr arolygiad ar y safle (gweler rhan 2, adran B uchod).

**Adborth dydd Iau**

Bydd y bore yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y tîm i drafod a safoni eu gwerthusiadau a llenwi eu ffurflenni tystiolaeth. Bydd yr adborth llafar yn cael ei gynnal ar ddechrau’r prynhawn i’r pennaeth (a’r dirprwy bennaeth, o dan rai amgylchiadau), cadeirydd y llywodraethwyr a chynrychiolydd o’r awdurdod lleol.

## Trosolwg posibl o'r drefn arolygu mewn ysgol gynradd

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r prif fanylion o ran trefn arolygiad.

<table>
<tr><th>Diwrnod</th><th>Gweithgaredd</th></tr>
<tr><td>Bore dydd Llun</td><td>• y tîm arolygu yn teithio i'r ysgol</td></tr>
<tr><td>Prynhawn dydd Llun</td><td>• cyfarfod tîm cyn-arolygiad, gyda'r enwebai yn bresennol, yn cynnwys deialog broffesiynol rhwng y tîm a'r pennaeth<br>• gweithgareddau arolygu<br>• cyfarfod gyda'r llywodraethwyr<br>• cyfarfod gyda rhieni/gofalwyr</td></tr>
<tr><td>Bore a phrynhawn dydd Mawrth</td><td>• gweithgareddau arolygu – arsylwi dosbarthiadau, teithiau dysgu, cyfweliadau â staff a disgyblion, a chraffu ar waith disgyblion a thystiolaeth arall<br>• Arolygydd Lleyg yn yr ysgol<br>• cyfarfod tîm ar ddiwedd y dydd, gyda'r enwebai'n bresennol</td></tr>
<tr><td>Bore a phrynhawn dydd Mercher</td><td>• gweithgareddau arolygu – arsylwi dosbarthiadau, teithiau dysgu, cyfweliadau, gwrando ar ddysgwyr, craffu ar ddogfennaeth a gwaith disgyblion<br>• cyfarfod tîm ar ddiwedd y dydd, gyda'r enwebai'n bresennol</td></tr>
<tr><td>Bore a dechrau prynhawn dydd Iau</td><td rowspan="2">• y tîm arolygu yn cyfarfod i gytuno ar ganfyddiadau a'u cymedroli<br>• y tîm arolygu yn adrodd i'r pennaeth (a'r dirprwy bennaeth, lle y bo'n briodol), cadeirydd y llywodraethwyr a chynrychiolydd yr awdurdod lleol ac yn gadael yr ysgol</td></tr>
<tr><td>Prynhawn dydd Iau</td></tr>
</table>

## Ysgolion uwchradd

Cynhelir pob arolygiad rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Bydd maint y tîm yn amrywio yn ôl maint yr ysgol. Ar gyfer ysgolion uwchradd, bydd yr arolygiad yn para pedwar diwrnod.

### Dydd Llun

Bydd y tîm arolygu yn teithio i'r ysgol ar y bore dydd Llun, gan gyrraedd tua chanol dydd. Rhwng y cyfarfod cyn-arolygiad a'r ddeialog broffesiynol gyda'r pennaeth (gweler rhan 2, adran B uchod), gallai arolygwyr ddechrau gweithgarwch arolygu, er enghraifft teithiau dysgu.

Ar ôl ysgol, bydd yr arolygydd cofnodol ac arolygydd tîm yn cyfarfod gyda rhieni/gofalwyr. Mae'n debygol y bydd yr arolygydd cofnodol hefyd yn trefnu i gyfarfod â chynrychiolwyr corff llywodraethol yr ysgol yn ystod y prynhawn Llun.

**Gweithgarwch arolygu ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau**

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y tîm yn arsylwi ystafelloedd dosbarth, yn cynnal teithiau dysgu, yn cyfweld â disgyblion, yn adolygu gwaith disgyblion a thystiolaeth arall ac yn cyfarfod â staff perthnasol. Bydd cyfarfod tîm yn cael ei gynnal ar ddiwedd pob dydd (gweler rhan 2, adran B uchod). Yn ystod cyfarfod y tîm ddydd Iau, bydd y tîm arolygu yn trafod ac yn cymedroli eu gwerthusiadau.

Bydd yr Arolygydd Lleyg fel arfer yn ymuno â'r tîm ar ddiwrnod cyntaf llawn yr arolygiad ar y safle (gweler rhan 2, adran B uchod).

**Adborth ddydd Gwener**

Yn y bore, bydd y tîm yn llenwi eu ffurflenni barnau ac, os bydd angen, yn trafod ac yn cymedroli eu gwerthusiadau ymhellach. Yn y prynhawn, bydd y tîm yn cwblhau drafft cyntaf o'r adroddiad arolygu yn barod ar gyfer adborth.

Bydd adborth llafar yn cael ei gynnal tuag un ar ddeg o'r gloch, fel arfer. Bydd y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth, cadeirydd y llywodraethwyr a chynrychiolydd o'r awdurdod lleol a/neu'r consortiwm rhanbarthol yn mynychu, fel arfer.

**Trosolwg posibl o'r drefn arolygu mewn ysgol uwchradd**

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r prif fanylion o ran trefn arolygiad.

| Diwrnod | Gweithgaredd |
|---|---|
| Bore dydd Llun | • y tîm arolygu yn teithio i'r ysgol |
| Prynhawn dydd Llun | • cyfarfod tîm cyn-arolygiad, gyda'r enwebai'n bresennol<br>• gweithgareddau arolygu<br>• deialog broffesiynol rhwng y tîm a'r pennaeth/uwch arweinwyr<br>• cyfarfod gyda llywodraethwyr<br>• cyfarfod gyda rhieni/gofalwyr |
| Bore a phrynhawn dydd Mawrth | • gweithgareddau arolygu – arsylwi dosbarthiadau, teithiau dysgu, cyfweliadau â staff a disgyblion, a chraffu ar waith disgyblion a thystiolaeth arall<br>• arolygydd lleyg yn yr ysgol<br>• cyfarfod tîm ar ddiwedd y dydd, gyda'r enwebai'n bresennol |
| Bore a phrynhawn dydd Mercher | • gweithgareddau arolygu – arsylwi dosbarthiadau, teithiau dysgu, cyfweliadau, gwrando ar ddysgwyr a chraffu ar ddogfennaeth a gwaith disgyblion |

| | |
|---|---|
| | • cyfarfod tîm ar ddiwedd y dydd, gyda'r enwebai'n bresennol – bydd y tîm yn trafod a chymedroli barnau |
| Bore dydd Iau | • gweithgareddau arolygu – arsylwi dosbarthiadau, teithiau dysgu, cyfweliadau, gwrando ar ddysgwyr a chraffu ar ddogfennaeth a gwaith disgyblion |
| Prynhawn dydd Iau | • y tîm arolygu yn llenwi ffurflenni barnau – trafod a chymedroli gwerthusiadau ymhellach os bydd angen |
| Bore dydd Gwener | • y tîm arolygu yn cwblhau adroddiad arolygu drafft<br>• y tîm arolygu yn adrodd i'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth, cadeirydd y llywodraethwyr a chynrychiolydd yr awdurdod lleol a/neu'r consortiwm rhanbarthol cyn gadael yr ysgol |

**Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion**

Bydd nifer y diwrnodau sy'n cael eu treulio yn arolygu'r ysgol yn dibynnu ar ei maint. I'r rhan fwyaf o ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion, bydd hyn yn para tridiau.

**Dydd Llun**

Bydd y tîm arolygu yn teithio i'r ysgol ar y bore dydd Llun, gan gyrraedd tua chanol dydd. Rhwng y cyfarfod cyn-arolygiad a'r ddeialog broffesiynol gyda'r pennaeth (gweler rhan 2, adran B uchod), gallai arolygwyr ddechrau gweithgarwch arolygu, er enghraifft teithiau dysgu.

Ar ôl ysgol, bydd yr arolygydd cofnodol ac arolygydd tîm yn cyfarfod gyda rhieni/gofalwyr. Mae'n debygol y bydd yr arolygydd cofnodol hefyd yn trefnu i gyfarfod â chynrychiolwyr corff llywodraethol yr ysgol yn ystod y prynhawn Llun.

**Gweithgarwch arolygu ddydd Mawrth a dydd Mercher**

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y tîm yn arsylwi ystafelloedd ddosbarth, yn cynnal teithiau dysgu, yn cyfweld â disgyblion, yn adolygu gwaith disgyblion a thystiolaeth arall ac yn cyfarfod â staff perthnasol. Bydd cyfarfod tîm yn cael ei gynnal ar ddiwedd y dydd bob dydd (gweler rhan 2, adran B uchod).

Bydd yr Arolygydd Lleyg fel arfer yn ymuno â'r tîm ar ddiwrnod cyntaf llawn yr arolygiad ar y safle (gweler rhan 2, adran B uchod).

**Adborth ddydd Iau**

Bydd y bore'n cael ei ddefnyddio i'r tîm drafod a chymedroli eu gwerthusiadau a llenwi eu ffurflenni barnau. Cynhelir adborth llafar ar ddechrau'r prynhawn i'r pennaeth a'r uwch dîm arwain, cadeirydd y llywodraethwyr a chynrychiolydd yr

awdurdod lleol. Mewn unedau cyfeirio disgyblion, bydd adborth fel arfer yn cael ei roi i'r athro sy'n gyfrifol neu reolwr y ganolfan a chynrychiolydd yr awdurdod lleol.

**Trosolwg posibl o'r drefn arolygu mewn ysgol arbennig neu UCD**

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r prif fanylion o ran trefn arolygiad.

| Diwrnod | Gweithgaredd |
|---|---|
| Bore dydd Llun | • y tîm arolygu yn teithio i'r ysgol |
| Prynhawn dydd Llun | • cyfarfod tîm cyn-arolygiad, gyda'r enwebai'n bresennol<br>• deialog broffesiynol rhwng y tîm a'r pennaeth<br>• gweithgareddau arolygu<br>• cyfarfod gyda llywodraethwyr<br>• cyfarfod gyda rhieni/gofalwyr |
| Bore a phrynhawn dydd Mawrth | • gweithgareddau arolygu – arsylwi dosbarthiadau, teithiau dysgu, cyfweliadau â staff a disgyblion, a chraffu ar waith disgyblion a thystiolaeth arall<br>• arolygydd lleyg yn yr ysgol<br>• cyfarfod tîm ar ddiwedd y dydd, gyda'r enwebai'n bresennol |
| Bore a phrynhawn dydd Mercher | • gweithgareddau arolygu – arsylwi dosbarthiadau, teithiau dysgu, cyfweliadau, gwrando ar ddysgwyr a chraffu ar ddogfennaeth a gwaith disgyblion<br>• cyfarfod tîm ar ddiwedd y dydd, gyda'r enwebai'n bresennol |
| Bore dydd Iau / dechrau'r prynhawn | • y tîm arolygu yn cyfarfod i gytuno a chymedroli canfyddiadau<br>• y tîm arolygu yn adrodd i'r pennaeth (a'r dirprwy bennaeth, lle bo'n briodol), cadeirydd y llywodraethwyr a chynrychiolydd yr awdurdod lleol cyn gadael yr ysgol |

**Ysgolion annibynnol**

Bydd hyd yr arolygiad a maint y tîm yn amrywio yn ôl maint yr ysgol a natur ei darpariaeth.

**Dydd Llun**

Bydd y tîm arolygu yn teithio i'r ysgol ar y bore dydd Llun, gan gyrraedd tua chanol dydd. Rhwng y cyfarfod cyn-arolygiad a'r ddeialog broffesiynol gyda'r pennaeth (gweler rhan 2, adran B uchod), gallai arolygwyr ddechrau gweithgarwch arolygu, er enghraifft teithiau dysgu.

Ar ôl ysgol, bydd yr arolygydd cofnodol ac arolygydd tîm yn cyfarfod gyda rhieni/gofalwyr. Mae'n debygol y bydd yr arolygydd cofnodol hefyd yn trefnu cyfarfod gyda'r perchennog yn ystod y prynhawn dydd Llun.

**Gweithgarwch arolygu ddydd Mawrth a dydd Mercher**

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y tîm yn arsylwi ystafelloedd dosbarth, yn cynnal teithiau dysgu, yn cyfweld â disgyblion, yn adolygu gwaith disgyblion a thystiolaeth arall ac yn cyfarfod â staff perthnasol. Bydd cyfarfod tîm yn cael ei gynnal ar ddiwedd pob dydd (gweler rhan 2, adran B uchod).

Bydd yr Arolygydd Lleyg fel arfer yn ymuno â'r tîm ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad ar y safle (gweler rhan 2, adran B uchod). Bydd yr arolygwr hefyd yn ymuno â'r tîm ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad ar y safle a bydd yn casglu tystiolaeth i werthuso a yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cofrestru.

**Adborth ddydd Iau**

Bydd adborth llafar yn cael ei roi ar ddiwedd yr arolygiad ar y safle i'r pennaeth a'r uwch staff yn ogystal â'r perchennog, lle bo'n briodol.

**Trosolwg posibl o'r drefn arolygu mewn ysgol annibynnol**

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r prif fanylion o ran trefn arolygiad.

| Diwrnod | Gweithgaredd |
|---|---|
| Bore dydd Llun | • y tîm arolygu yn teithio i'r ysgol |
| Prynhawn dydd Llun | • cyfarfod tîm cyn-arolygiad, gyda'r enwebai'n bresennol<br>• deialog broffesiynol rhwng y tîm a'r pennaeth / enwebai<br>• gweithgareddau arolygu<br>• cyfarfod gyda llywodraethwyr<br>• cyfarfod gyda rhieni/gofalwyr |
| Bore a phrynhawn dydd Mawrth | • gweithgareddau arolygu – arsylwi dosbarthiadau, teithiau dysgu, cyfweliadau â staff a disgyblion, craffu ar waith disgyblion a thystiolaeth arall<br>• arolygwr safle yn yr ysgol<br>• cyfarfod tîm ar ddiwedd y dydd, gyda'r enwebai'n bresennol |
| Bore a phrynhawn dydd Mercher | • gweithgareddau arolygu – arsylwi dosbarthiadau, teithiau dysgu, cyfweliadau, a chraffu ar ddogfennaeth a gwaith disgyblion<br>• cyfarfod tîm ar ddiwedd y dydd, gyda'r enwebai'n bresennol – tîm i drafod a chymedroli canfyddiadau |

| | |
|---|---|
| Bore dydd Iau | • y tîm arolygu yn llenwi ffurflenni barnau – trafod a chymedroli canfyddiadau ymhellach, os bydd angen |
| Prynhawn dydd Iau | • y tîm arolygu yn cwblhau adroddiad arolygu drafft<br>• y tîm arolygu yn rhoi adborth ar ganfyddiadau i'r uwch staff/perchennog ac yn gadael yr ysgol |